# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Ionawr 2026

Amser: 13.30 - 15.02

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15720

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Isherwood AS.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)713 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 2.2 SL(6)716 – Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)706 – Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)707 – Rheoliadau Adeiladu (Gweithdrefnau Adeiladau Risg Uwch) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(6)708 – Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(6)715 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.5 SL(6)704 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Ty Gwydr (Diwygio) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.6 SL(6)714 – Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.7 SL(6)719 – Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 4.1 SL(6)711 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(6)712 – Gorchymyn Deddf Adeiladu 1984 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 5.1 SL(6)703 – Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Costau Ardoll Ymwelwyr) (Cymru) 2026

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 5.2 SL(6)694 – Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 6 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

### 6.1 SL(6)698 – Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 6.2 SL(6)699 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 6.3 SL(6)700 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 7 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 7.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol

Cafodd y Pwyllgor hysbysiadau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfarfodydd nifer o grwpiau rhyngweinidogol: Datganiad Ysgrifenedig a llythyr gan Brif Weinidog Cymru mewn perthynas â chyfarfod o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig; llythyr gan y

Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net a Gweinidogion Cymru; a llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â chyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

### 7.2 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig a Darpariaeth Arbed) (Diwygio) 2026

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

### 7.3 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Rheoliadau Darparu Gwasanaethau (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol) 2026

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio.

### 7.4 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2026

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## 8 Papurau i’w nodi

### 8.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni: Is-ddeddfwriaeth

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni.

### 8.2 Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Ymgynghoriad ar Newidiadau Arfaethedig i Gynlluniau Ffioedd a Thaliadau Awdurdodau Lleol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 8.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad at y Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau: Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad at y Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau.

### 8.4 Gohebiaeth gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

Derbyniwyd y cynnig.

## 10 Y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru): Trafod adroddiad Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft, yn amodol ar fân newidiadau i'w cytuno y tu allan i'r Pwyllgor.

## 11 Is-ddeddfwriaeth a drafodwyd eisoes

Trafododd y Pwyllgor ei ddadansoddiad o'r monitro parhaus o offerynnau statudol a chytunodd i ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seiberddiogelwch a Seiberwydnwch (Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth)

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm, a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2): Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

## 14 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn ei gyfarfod nesaf.

## 15 Adroddiad monitro

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad monitro, a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi ynghylch y trafodaethau parhaus rhwng y DU a'r UE.

## 16 Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

Trafododd y Pwyllgor y briff gan Ymchwil y Senedd a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog am ragor o wybodaeth.

## 17 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ynghylch trefnu dadl ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol.